Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar ddarpariaeth addysg bellach

## Coleg Cambria

**Ffordd Parc y Llwyni**
**Wrecsam**
**LL12 7AB**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn â Choleg Cambria

Mae Coleg Cambria yn goleg addysg bellach mawr yn ne ddwyrain Cymru. Crëwyd y coleg ar ôl uno Coleg Glannau Dyfrdwy a Choleg Iâl ym mis Awst 2013. Mae ganddo bum campws ar draws Wrecsam, Sir y Fflint a Sir Ddinbych. Mae'r campysau a ddefnyddir gan Goleg Cambria yng Nghei Connah sy'n cynnwys canolfan chweched dosbarth Glannau Dyfrdwy, Iâl yn Wrecsam, sy'n cynnwys canolfan chweched dosbarth, Ffordd Y Bers yn Wrecsam, Llysfasi a Llaneurgain. Mae'r coleg yn cynnig amrywiaeth eang o gyrsiau sy'n cyflwyno rhaglenni o lefel cyn-mynediad i gyrsiau Lefel 7 ar draws ardal ddaearyddol fawr, gyda chyfleoedd ar gael ar y rhan fwyaf o gyrsiau i symud ymlaen i'r lefel nesaf, neu symud ymlaen i brentisiaethau ac addysg uwch. Mae'r cyrsiau hyn yn cynnwys:

- Safon Uwch
- Mynediad at addysg uwch
- Trin gwallt, harddwch, sba a therapïau cyflenwol
- Busnes
- Iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant
- Adeiladu, peirianneg a thechnolegau digidol
- Y cyfryngau, chwaraeon a gwasanaethau cyhoeddus ag iwnifform.

Amaethyddiaeth a gofal anifeiliaid

- Medrau sylfaen, medrau a Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill
- Diwydiannau creadigol
- Lletygarwch ac arlwyo a theithio a thwristiaeth
- Medrau byw yn annibynnol

Mae tua 11,701 o ddysgwyr wedi eu cofrestru yn y coleg. O'r rhain, mae 8,154 wedi eu cofrestru ar ddarpariaeth addysg bellach. Mae gan y coleg tua 5,952 o ddysgwyr addysg bellach amser llawn a 2,217 o ddysgwyr addysg bellach rhan-amser. O'r dysgwyr amser llawn, mae 4,541 yn dilyn cyrsiau galwedigaethol a 1,411 yn dilyn cyrsiau addysg gyffredinol yn y canolfannau chweched dosbarth yn Iâl a Glannau Dyfrdwy. Mae'r coleg yn cyflogi 1,294 o staff.

Mae tua 386,000 o bobl yn byw yn Sir y Fflint, Sir Ddinbych a Wrecsam (96,000, 155,000 a 135,000 yn y drefn honno). O'r boblogaeth bresennol, mae tua 65,000 (17%) o dan 15 oed, a thua 84,000 (22%) ohonynt yn 65 oed ac yn hŷn. Tyfodd poblogaeth Sir y Fflint 1.6% rhwng cyfrifiadau 2011 a 2021, ac fe dyfodd poblogaeth Sir Ddinbych 2.2%, a phoblogaeth Wrecsam 0.2%.

Ym mis Mehefin 2022, y gyfradd cyflogaeth yn Sir y Fflint oedd 80.1%, sy'n uwch na ffigur Cymru, sef 73.7%. Y gyfradd cyflogaeth yn Sir Ddinbych oedd 70.5%, ac yn Wrecsam, roedd yn 71.7%, y naill a'r llall yn is na chyfartaledd Cymru. Yn 2021, yr enillion cyfartalog (canolrif) gros wythnosol yn Sir y Fflint, Sir Ddinbych a Wrecsam oedd £574, £571 a £564 yn y drefn hon. Maent yn y 6ed, 7fed ac 8fed safle ymhlith y 22 awdurdod lleol. Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2019 yn dangos bod 20% o ardaloedd yn Sir y Fflint, 22% yn Sir Ddinbych a 28% yn Wrecsam o fewn y 30% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae'r rhan fwyaf o drigolion Sir y Fflint, Sir Ddinbych a Wrecsam o gefndir ethnig gwyn.

Mae Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth 2021 yn dangos mai canran y bobl sy'n dair oed ac yn hŷn sy'n siarad Cymraeg yn y tri awdurdod lleol yw 29%, sef cynnydd o bedwar pwynt canran mewn 10 mlynedd. O ran y Gymraeg yn y coleg, mae 7.7% o ddysgwyr addysg bellach yn nodi bod ganddynt fedrau Cymraeg rhugl, a dywed 22.2% o ddysgwyr addysg bellach fod ganddynt rywfaint o fedrau Cymraeg ond nad ydynt yn rhugl.

Mae canran yr oedolion yn Sir y Fflint sy'n gymwys i lefel 2 neu'n uwch (80.1%), i lefel 3 neu'n uwch (60.8%) ac i lefel 4 neu'n uwch (40.1%) yn debyg i gyfartaleddau Cymru, neu ychydig yn is. Yn Wrecsam, mae'r canrannau hynny (76.5%, 55.1% a 37.7%) i gyd gryn dipyn islaw cyfartaledd Cymru. Mewn cyferbyniad, yn Sir Ddinbych, mae canrannau'r bobl sy'n gymwys i lefel 2 neu'n uwch (82.4%), i lefel 3 neu'n uwch (62.5%) ac i lefel 4 neu'n uwch (43.1%) yn debyg i gyfartaleddau Cymru, neu ychydig yn uwch.

## Crynodeb

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn frwdfrydig am eu cyrsiau ac wedi'u cymell i ennill eu cymwysterau, gyda llawer ohonynt yn awyddus i symud ymlaen i'r lefel nesaf. Mae dysgwyr yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael cymorth da gan eu hathrawon ac aelodau staff eraill wrth fynychu'r coleg. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn teimlo bod y coleg yn lle cynhwysol a chroesawgar lle maent yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn gweithio'n dda gyda'i gilydd a gyda'u hathrawon ac aelodau staff eraill.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymwybodol o ystod eang o gymorth ar gyfer eu hiechyd meddwl a'u lles emosiynol, ac yn elwa arno. Maent yn cydnabod bod y coleg yn rhoi blaenoriaeth uchel i'w hiechyd meddwl. Ar draws y coleg, mae dysgwyr yn gwerthfawrogi'r diwylliant sy'n hyrwyddo eu hannibyniaeth ac yn eu cynorthwyo ar gyfer symud ymlaen i'r lefel nesaf a byd gwaith.

Mae llawer o ddysgwyr galwedigaethol yn datblygu ystod eang o fedrau ymarferol sy'n eu helpu i ddatblygu'r medrau sydd eu hangen ar ddiwydiant. Mae dysgwyr academaidd a galwedigaethol ar draws ystod eang o alluoedd yn cyflawni graddau da yn gyson o gymharu â'u mannau cychwyn unigol. Ar draws y coleg, mae medrau rhifedd dysgwyr yn llai datblygedig na charfanau tebyg cyn y pandemig. Mae gan lawer o ddysgwyr ddealltwriaeth glir o'u camau nesaf, gan gynnwys dilyniant i gwrs lefel uwch yn y coleg neu i gyflogaeth, gan gynnwys prentisiaethau. Mae llawer o ddysgwyr yn dangos dealltwriaeth glir o eithafiaeth a radicaleiddio.

Mae cwricwlwm y coleg yn cynnig amrywiaeth eang o gyrsiau sy'n amrywio o gyswllt ysgol i addysg uwch. Caiff cyrsiau eu datblygu gan ddefnyddio ystod eang o wybodaeth i nodi angen, ac o ganlyniad, maent yn cefnogi anghenion dysgwyr a chyflogwyr ar draws y rhanbarth. Mae'r coleg wedi gweithio i symleiddio'r cwricwlwm a lleihau dyblygu ar draws safleoedd. Fodd bynnag, pan mae'r ddarpariaeth yn bodoli ar draws safleoedd, nid yw'r coleg yn rhannu gwybodaeth yn systematig yn ymwneud ag addysgu a dysgu a nodi arfer orau.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn adnabod eu dysgwyr yn dda ac yn cynllunio gweithgareddau sy'n ennyn eu diddordeb yn effeithiol i gyflawni eu llawn botensial. Mewn lleiafrif o achosion, nid yw athrawon yn nodi'r strategaethau addysgu a dysgu gorau yn gyson i alluogi pob un o'r dysgwyr i wneud cynnydd a chynhyrchu gwaith o safon uchel. Er bod gosod targedau i ddysgwyr gwblhau gwaith yn nodwedd gref mewn cyrsiau academaidd ac ychydig o feysydd galwedigaethol, mae'r arfer yn anghyson ar draws y coleg. Ar draws y coleg, nid yw llawer o athrawon yn cynllunio'n ddigon da i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol dysgwyr. Nid yw athrawon sy'n gyfrifol am gyflwyno medrau llythrennedd, rhifedd a digidol ac athrawon galwedigaethol bob amser yn gweithio gyda'i gilydd yn ddigon da i roi'r cymorth sydd ei angen arnynt i ddysgwyr.

Mae'r prif swyddog gweithredol, gyda chymorth gan ei huwch dîm arweinyddiaeth, llywodraethwyr a staff, wedi sefydlu cyfeiriad strategol ar gyfer y coleg ar sail gweledigaeth, cenhadaeth a nodau strategol ar y cyd. Mae'r awydd i ddatblygu diwylliant o ddidwylledd a thryloywder ac ethos 'yn canolbwyntio ar bobl' yn sail i'r nodau hyn. Mae llawer o staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, yn cael eu

cynnwys ac yn gadarnhaol am y cyfeiriad strategol, ac maent yn gwerthfawrogi'r ffocws cryf ar les a chymorth.

Mae'r coleg yn gwasanaethu anghenion ei gymunedau yn dda. Mae ganddo bartneriaethau datblygedig ag amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys awdurdodau lleol, ysgolion, colegau addysg bellach, byrddau gwasanaethau cyhoeddus, y bartneriaeth sgiliau rhanbarthol a chyflogwyr. Mae gan uwch dîm rheoli'r coleg ffocws clir ar wella'r profiadau dysgu ar gyfer dysgwyr i wneud yn siŵr fod pob un o'r dysgwyr yn cyrraedd eu llawn botensial. Maent yn defnyddio gweithdrefnau gwella ansawdd cynhwysfawr ac yn casglu ystod eang o wybodaeth i lywio'u harferion. Ar hyn o bryd, mae sawl menter allweddol yn newydd, ac nid yw rheolwyr bob amser yn mesur cynnydd ac effaith camau gweithredu yn ddigon da.

## Argymhellion

A1 Mireinio'r drefn o ran cynllunio gwelliant, gwerthuso a mesur effaith mentrau allweddol

A2 Gwella'r drefn o ran cynllunio a chyflwyno gweithgareddau addysgu a dysgu i sicrhau bod pob un o'r dysgwyr yn cyflawni eu potensial ar draws eu rhaglen astudio lawn

A3 Gwella'r drefn o ran cynllunio ac addysgu medrau llythrennedd a rhifedd i sicrhau bod dysgwyr yn datblygu eu medrau a mynd i'r afael ag unrhyw fylchau o ran medrau

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y darparwr yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd y darparwr i baratoi astudiaeth achos ar ei waith yn ymwneud ag arfer sy'n ystyriol o drawma a phrofiad gwaith, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymgysylltu’n dda â’u gwaith ac yn dangos ymrwymiad cryf i’w hastudiaethau. Mae llawer ohonynt yn galw dysgu blaenorol i gof yn dda a gall y mwyafrif ohonynt gymhwyso eu gwybodaeth a’u medrau i gyd-destunau newydd yn effeithiol. Er enghraifft, mewn astudiaethau ffilm UG, mae dysgwyr yn cymhwyso eu gwybodaeth am onglau camera yn llwyddiannus wrth drafod cynrychiolaeth rhywedd mewn ffilm glasurol. Mewn gwersi, mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cryf tra’n gweithio’n annibynnol, maent yn gwrando’n astud ar eu hathrawon a’u cyfoedion, a gallant gynnal eu ffocws ar amrywiaeth o dasgau. Mae ychydig o ddysgwyr yn gofyn cwestiynau craff i’w hathrawon i ddatblygu eu dealltwriaeth ymhellach. Mewn ychydig o achosion, yn enwedig mewn gwersi llythrennedd a rhifedd dynodedig, mae dysgwyr yn gwneud cynnydd cyfyngedig, tynnir eu sylw’n hawdd gan eu cyfoedion ac nid ydynt yn ymgysylltu â’r amrywiaeth o weithgareddau dysgu.

Mae llawer o ddysgwyr yn rhoi cymorth buddiol i’w gilydd wrth weithio ar dasgau, maent yn trafod yr agweddau mwy heriol ar eu gwaith ac yn cytuno ar y ffordd orau i fwrw ymlaen. Wrth weithio mewn grwpiau bach, mae llawer o ddysgwyr yn cydweithio’n effeithiol. Maent yn datblygu eu syniadau a’u barn ar y cyd trwy ymgynghori â’i gilydd a rhannu eu barn. Mae’r mwyafrif ohonynt yn gwybod sut a phryd i herio’i gilydd i’w helpu i wneud cynnydd fel grŵp. Er enghraifft, mae dysgwyr y celfyddydau perfformiadol lefel 3 yn trafod a dadlau materion lleol a chenedlaethol yn ymwneud â digartrefedd, a dysgwyr criw caban lefel 2 yn fframio eu sgyrsiau dysgu yn frwdfrydig yng nghyd-destun ymweliad diweddar y coleg â maes awyr Manceinion. Mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gweithio gyda’i gilydd yn dda mewn parau, gan esbonio’u syniadau a chyfathrebu’n glir. Mae lleiafrif ohonynt yn cywiro camdybiaethau ei gilydd ac yn mynd i’r afael â bylchau yng ngwybodaeth ei gilydd yn sensitif. Er enghraifft, mae dysgwyr astudiaethau busnes UG yn profi ei gilydd ar nodweddion cwmnïau cyfyngedig preifat a chyhoeddus mewn ffordd gefnogol a datblygiadol.

Mae lleiafrif o ddysgwyr ar draws y coleg yn betrusgar i gyfrannu o flaen eu cyfoedion, ac mae angen sbardun rheolaidd gan athrawon i ymateb i gwestiynau a chymryd rhan mewn trafodaethau grŵp cyfan. Mae’r dysgwyr hyn yn ansicr ohonyn nhw eu hunain ac yn dibynnu’n ormodol ar eu hathrawon. Maent yn aros i athrawon gyflwyno atebion i dasgau a phroblemau yn hytrach na bod yn barod i ddysgu trwy wneud camgymeriadau. Wrth ymateb i gwestiynau uniongyrchol athrawon, mae’r dysgwyr hyn yn rhoi ymatebion cyfyngedig, nid ydynt yn gwneud defnydd digonol o derminoleg sy’n benodol i bwnc, ac mewn ychydig o achosion, maent yn ei chael yn anodd galw agweddau pwysig ar ddysgu blaenorol i gof.

Ar draws y coleg, mae llawer o ddysgwyr yn cymryd nodiadau addas mewn gwersi. Mae llawer o’r rhai ar raglenni lefel uwch yn gwneud nodiadau manwl ac yn prosesu a chyfosod gwybodaeth bwysig yn effeithiol. Mae llawer o ddysgwyr lefel uwch yn cyflwyno eu gwaith yn glir ac yn ffeilio eu gwaith yn rhesymegol fel y gellir ei ddefnyddio wrth baratoi ar gyfer asesiadau ffurfiol. Mae dysgwyr sy’n dilyn cyrsiau academaidd yn adolygu eu deilliannau asesu yn rheolaidd ac mae llawer ohonynt yn

cywiro eu gwaith asesu neu'n ychwanegu ato ar ôl hynny cyn gosod targedau gwerth chweil iddyn nhw eu hunain ar gyfer gwella. Ar draws rhaglenni galwedigaethol lefel 1 a lefel 2, ac mewn gwersi Saesneg a mathemateg yn ogystal, mae lleiafrif o ddysgwyr yn myfyrio ar eu hasesiadau yn y modd hwn yn ddefnyddiol.

Yn unol â'u gallu a'u lefel astudio, mae mwyafrif y dysgwyr yn ysgrifennu'n fedrus ac yn dangos medrau ysgrifennu estynedig effeithiol. Er enghraifft, mae dysgwyr seicoleg UG yn gwneud defnydd effeithiol o strategaethau ysgrifennu sefydledig i strwythuro eu gwaith wrth werthuso ymagwedd yr ymddygiadwr. Mae dysgwyr gofal anifeiliaid lefel 3 yn dangos lefelau llythrennedd da, gan ysgrifennu'n hyderus am y methodolegau y maent yn bwriadu eu cymhwyso fel rhan o'u gwaith ar gyfer y dystysgrif her sgiliau. At ei gilydd, mae lleiafrif o ddysgwyr mewn meysydd galwedigaethol, yn enwedig ar lefel 1 a 2, yn meddu ar fedrau llythrennedd sy'n wannach na'r hyn fyddai'n ddisgwyliedig ar gyfer eu lefel astudio. Mae'r dysgwyr hyn yn gwneud camgymeriadau cyson mewn sillafu, atalnodi a gramadeg.

Mae medrau rhifedd dysgwyr ar draws y coleg yn llai datblygedig na'r hyn fyddai'n ddisgwyliedig o garfanau tebyg cyn y pandemig. Nid yw lleiafrif o ddysgwyr yn canolbwyntio ar eu targedau rhifedd, ac mewn gwersi rhifedd neu fathemateg dynodedig, mae cynnydd ac ymgysylltiad yn rhy anghyson. Mewn ychydig o enghreifftiau, mae dysgwyr yn datblygu medrau rhifedd gwerthfawr mewn sesiynau galwedigaethol technegol, er enghraifft trwy greu graffiau i ddangos sut mae'r grym electromagnetig wedi'i ysgogi mewn generadur yn amrywio â chylchdro'r coil. Fodd bynnag, ar draws y coleg, nid yw dysgwyr lefel is yn datblygu eu medrau rhifedd fel rhan o'u hastudiaethau galwedigaethol yn ddigon aml.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn gwneud defnydd effeithiol o blatfformau digidol i gynhyrchu a threfnu eu gwaith. Mae ymgysylltu ag adnoddau dysgu digidol y coleg wedi dod yn rhan sefydledig ac annatod o ddysgu yn y coleg. Mewn gwersi perthnasol, mae dysgwyr yn gwneud defnydd buddiol o feddalwedd arbenigol. Er enghraifft, mae dysgwyr medrau byw yn annibynnol yn defnyddio calendrau digidol i drefnu eu gweithgareddau, ac mewn meysydd mwy technegol, fel peirianneg, mae dysgwyr yn datblygu medrau dylunio gwerthfawr â chymorth cyfrifiadur yn annibynnol gan ddefnyddio meddalwedd safon diwydiant.

Mewn meysydd galwedigaethol, mae bron pob un o'r dysgwyr yn datblygu medrau ymarferol gwerthfawr, ac mae ychydig ohonynt yn arddangos gallu ymarferol ar lefel uwch. Er enghraifft, mewn sesiynau arlwyo lefel 3, mae dysgwyr yn dangos medrau deheuig tra'n paratoi llysiau gan ddefnyddio gwahanol dechnegau torri, ac mewn sesiynau gwaith brics, mae dysgwyr yn dangos sut i ychwanegu nodweddion addurnol cymhleth at y strwythurau maent yn eu hadeiladu.

Mae bron pob un o'r dysgwyr sy'n dilyn cyrsiau medrau byw yn annibynnol yn datblygu medrau bywyd gwerthfawr yn ystod eu cyfnod yn y coleg. Maent yn caffael dealltwriaeth gadarn o feysydd pwysig o annibyniaeth a hunanofal; er enghraifft, gallant ddewis pa gynhyrchion i'w defnyddio fel rhan o arferion gofal personol a nodi diben pob cynnyrch. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dysgu coginio prydau ac yn ymgymryd â gweithgareddau domestig, ac mae llawer ohonynt yn dysgu sut i reoli eu cyllid hefyd. Maent yn rhyngweithio'n hapus â'i gilydd mewn gwersi ac yn gymdeithasol, wrth chwarae gemau, a gyda'i gilydd yn ystod amser cinio. Mae llawer o ddysgwyr yn dangos dealltwriaeth o'u cyrchfannau yn y dyfodol a'r medrau y maent

yn eu datblygu wrth baratoi ar gyfer gwneud cynnydd. Mae dysgwyr yn holi aelodau staff am opsiynau cyflogadwyedd a phrofiadau bywyd gwaith. Maent yn chwarae rôl sefyllfaoedd cymdeithasol i'w cynorthwyo i drosglwyddo i amgylcheddau gweithio ac amgylcheddau cymdeithasol newydd.

Mae dysgwyr sy'n ymuno â'r coleg â rhuglder neu gymhwysedd cryf yn y Gymraeg yn manteisio'n rheolaidd ar gyfleoedd i siarad yr iaith yng nghyd-destun eu hastudiaethau, ble bynnag y bo modd. Mae dysgwyr Safon Uwch sy'n siarad Cymraeg yn cwblhau eu Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae nifer fach o ddysgwyr, y nodwyd eu bod yn siaradwyr Cymraeg ail iaith cryf, yn cymryd rhan mewn gwersi Cymraeg ail iaith UG, yn ogystal â'u prif bynciau astudio. Mae siaradwyr Cymraeg sy'n dilyn cyrsiau amaethyddiaeth yn cymryd rhan mewn gwersi dwyieithog, fel y mae dysgwyr mewn iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant ar gyfer rhannau o'u cyrsiau. Mae dysgwyr sy'n dilyn cyrsiau ar draws y meysydd galwedigaethol blaenoriaethol a nodwyd yn genedlaethol yn ymgysylltu'n addas â'r gwersi dynodedig y mae'r coleg wedi eu darparu i'w helpu i ddatblygu eu cymhwysedd a'u hyder yn defnyddio'r Gymraeg. Fodd bynnag, ar draws y coleg, ychydig iawn o ddysgwyr sy'n datblygu eu Cymraeg fel rhan o'u prif wersi pwnc neu sesiynau galwedigaethol.

At ei gilydd, mae dysgwyr yn y coleg yn gwneud cynnydd cryf tuag at eu cymwysterau galwedigaethol ac academaidd. Mae dysgwyr gallu uwch yn ymgysylltu'n frwdfrydig â 'rhaglen wella'r' coleg i'w hymestyn a'u cynorthwyo i gyflawni eu potensial. Mae dysgwyr lefel 3 sydd mewn perygl o dangyflawni, ynghyd â'r rhai sydd eisiau cyflawni graddau uwch, yn ymgysylltu'n dda â dosbarthiadau a sesiynau cymorth helaeth y coleg sy'n benodol i bwnc. Mae dysgwyr Safon Uwch a dysgwyr galwedigaethol lefel 3 o ystod eang o alluoedd yn cyflawni graddau da yn gyson o gymharu â'u mannau cychwyn unigol.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn teimlo bod y coleg yn lle cynhwysol a chroesawgar lle maent yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Maent yn teimlo'n ddiogel ac yn rhydd rhag aflonyddwch. Maent yn gwisgo laniardiau Coleg Cambria ac yn cydnabod pwysigrwydd hyn o ran diogelwch ac ymdeimlad o berthyn i'r coleg.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn dangos parch at ei gilydd. Maent yn gwrtais ac yn ystyriol. Maent yn parchu staff ac yn teimlo eu bod yn cael eu parchu a'u cynorthwyo gan staff. Mae ychydig iawn o ddysgwyr wedi torri cod ymddygiad y coleg yn ddifrifol neu dro ar ôl tro, gan arwain at nifer fach o waharddiadau.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymwybodol o ystod eang o gymorth ar gyfer eu hiechyd meddwl a'u lles emosiynol, ac yn elwa arno. Maent yn cydnabod bod y coleg yn rhoi blaenoriaeth uchel i'w hiechyd meddwl. Er enghraifft, mae dysgwyr yn elwa ar gynorthwywyr lles sy'n weladwy o gwmpas campysau mewn ardaloedd cymdeithasol, anogwyr gwydnwch sy'n cynorthwyo â rhwystrau rhag dysgu, anogwyr cynnydd sy'n darparu sesiynau tiwtorial a chymorth personol, yn ogystal â gwasanaeth cwnsela a gwasanaeth caplaniaeth aml-ffydd. Mae dysgwyr yn gwerthfawrogi'r 'hybiau lles' sy'n cynnig parthau ymdawelu â goleuadau lefel isel, seddi cyfforddus a cherddoriaeth dyner sy'n eu helpu i ymlacio a chymryd seibiant o'r pwysau maent yn eu hwynebu. Er gwaethaf yr amrywiaeth o gymorth a gynigir, mae

ychydig o ddysgwyr naill ai'n anymwybodol o wasanaethau cymorth neu ni allant elwa arnynt pan fydd eu hangen oherwydd problemau o ran capasiti staff.

Caiff dysgwyr eu cynorthwyo i fyw'n iach, ac maent yn cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau corfforol trefnus ac anffurfiol. Er enghraifft, mae dysgwyr yn elwa ar fewnbwn tîm Cambria Heini y coleg i'r rhaglen diwtorial a ioga peripatetig yn ystod gwersi sy'n hyrwyddo buddion symudiadau corfforol i'r ymennydd. Mae dysgwyr yn chwarae tennis bwrdd yn ystod amseroedd egwyl gan fod y coleg wedi gosod byrddau dan do ac yn yr awyr agored yn ddiweddar ar ôl i ddysgwyr ofyn amdanynt.

Lle bo'n briodol, mae dysgwyr yn cael cymorth sylweddol ar gyfer y costau sy'n gysylltiedig ag astudio yn y coleg sy'n eu helpu i gymryd rhan yn llawn ac yn lleddfu straen yn gysylltiedig â chostau byw. Gall dysgwyr o aelwydydd incwm isel gael cinio am ddim a chymorth ychwanegol i'w helpu i gael yr adnoddau sydd eu hangen arnynt ar gyfer eu cwrs neu gymryd rhan mewn gweithgareddau oddi ar y safle. Gall dysgwyr gymryd rhan yng nghynllun Gwobr Dug Caeredin a chael benthyg offer ar gyfer teithiau am ddim.

Mae dysgwyr yn gwerthfawrogi'r diwylliant yn y coleg sy'n hyrwyddo eu hannibyniaeth a'u cyfrifoldeb am eu dysgu a bywyd yn y coleg. Mae hyn yn paratoi dysgwyr yn dda ar gyfer symud ymlaen at lefel nesaf y dysgu a byd gwaith. Er enghraifft, mae dysgwyr yn hunangofnodi absenoldebau ac yn cyfeirio eu hunain at wasanaethau pan fydd ganddynt angen. Maent yn ymgymryd â rolau amrywiol mewn garej cerbydau modur efelychiadol ac yn ymgymryd â rolau gwaith go iawn o fewn mentrau masnachol y coleg, fel y siop flodau, y salon gwallt a harddwch a'r tŷ bwyta sydd ar agor i'r cyhoedd. Er bod y cyfleoedd yn gyfyngedig, pan roddir y cyfle iddynt, mae dysgwyr yn gwneud dewisiadau aeddfed yn eu dysgu, fel dewis y dasg estynedig y maent yn ei ffafrio neu benderfynu p'un a ydynt am weithio'n unigol, mewn parau neu grwpiau bach ar dasg.

Mae dysgwyr sydd â diddordeb yn manteisio ar gyfleoedd amrywiol i ymgymryd â rolau arwain ffurfiol ac anffurfiol yn y coleg sy'n datblygu nid yn unig eu medrau arwain ond eu medrau cyflogadwyedd a'u hunanhyder hefyd. Er enghraifft, mae rhaglen Arweinwyr Ymddiriedus Cambria Heini yn cynorthwyo arweinwyr i arwain gweithgareddau chwaraeon, ac mae dysgwyr yn helpu staff i gynnal cystadlaethau chwaraeon yn erbyn colegau eraill. Mae dysgwyr yn gweithredu fel llysgenhadon mewn sawl maes. Er enghraifft, maent yn helpu cynnal nosweithiau agored ac yn rhannu eu profiadau â darpar ddysgwyr a'u rhieni, ac yn gweithredu'n anffurfiol fel llysgenhadon ar gyfer y Gymraeg o fewn dosbarth.

Mae llawer o ddysgwyr yn teimlo bod y coleg yn gwerthfawrogi eu barn, gan wrando ar unrhyw bryderon a gweithredu yn unol â nhw. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr sy'n ymgymryd â rolau cynrychioli ar gyfer eu dosbarth, campws neu goleg yn cymryd eu rolau o ddifri. Maent yn ymgysylltu'n frwdfrydig â'u cyfoedion a staff y coleg i gefnogi gwelliannau yn eu profiad yn y coleg. Mae'r dysgwyr hyn wedi dylanwadu ar ddarparu mwy o ffynhonnau dŵr, cael cadeiriau newydd mewn ystafelloedd dosbarth, newid lleoliad y toiled niwtral o ran rhywedd yng nghanolfan chweched dosbarth Glannau Dyfrdwy a chyflwyno bathodynnau rhagenwau sydd ar gael yn hawdd i bob un o'r dysgwyr a'r staff.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Caiff cwricwlwm y coleg ei ystyried yn dda, gan ddefnyddio proses gynllunio strwythuredig a chynnwys staff ar bob lefel. Mae'n cynnig ystod eang o gyrsiau sy'n amrywio o gyswllt ysgol trwodd i lefel 4 ac ymlaen i addysg uwch, ac mae'n cefnogi anghenion dysgwyr a chyflogwyr ledled y rhanbarth. Caiff cyrsiau eu datblygu gan ddefnyddio gwybodaeth y farchnad lafur a blaenoriaethau medrau rhanbarthol. Caiff y rhain eu mireinio gan ddefnyddio gwybodaeth ystod helaeth o randdeiliaid, gan gynnwys byrddau ymgynghorol cyflogwyr, ysgolion lleol a chynghorau sgiliau sector. Er enghraifft, mae'r coleg wedi datblygu diploma lefel 2 mewn cynhyrchu llaeth, i gefnogi prinderau o ran medrau a nodwyd mewn trafodaethau gyda'r gymuned ffermio leol.

Mae uwch reolwyr a rheolwyr canol yn gweithio'n dda gyda'r holl randdeiliaid ac yn defnyddio system cynllunio'r cwricwlwm i symleiddio'r cynnig cwricwlwm a lleihau dyblygu ar draws safleoedd. Fodd bynnag, pan fydd darpariaeth yn bodoli ar fwy nag un safle, ni chaiff gwybodaeth yn ymwneud â phrofiadau'r dysgwyr, addysgu a dysgu ac arfer orau ei rhannu'n systematig bob amser. Mae cyfleoedd cynnydd ar gael ar gyfer llawer o gymwysterau, ac os nad yw hyn yn bosibl, caiff dysgwyr eu cynorthwyo'n dda gan eu hathrawon i symud i faes dysgu arall, hyfforddiant pellach neu gyflogaeth.

Mae'r coleg wedi datblygu cwricwlwm newydd ar gyfer y dysgwyr hynny sy'n dilyn cyrsiau medrau byw yn annibynnol. Ceir sawl llwybr, sy'n sicrhau bod dysgwyr yn dilyn rhaglen ystyrlon o weithgareddau ac yn datblygu medrau sy'n berthnasol i gefnogi eu bywydau yn y dyfodol. Er enghraifft, mae dysgwyr ar y llwybr cyflogadwyedd yn creu eu hadnoddau eu hunain i helpu paratoi eu hunain ar gyfer cyfweliadau. Ceir ffocws cryf ar ddatblygu medrau byw yn annibynnol, ac mae'r cwricwlwm yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ymarfer siopa, coginio a gofal personol.

Mae'r coleg yn cynnig ystod o gyfleoedd dysgu amserlenedig ychwanegol i ddysgwyr mewn mwyafrif o feysydd y cwricwlwm, i ymestyn cyfleoedd dysgu a chodi dyheadau a medrau cyflogadwyedd dysgwyr. Mae enghreifftiau o'r rhain yn cynnwys gyrru tractor, defnydd diogel o blaladdwyr, defnydd diogel o feddyginiaeth filfeddygol mewn amaethyddiaeth, cymorth cyntaf trawma mewn coedwigaeth, argraffu 3D a realiti estynedig mewn adeiladu. Yn ychwanegol, mae bron pob un o'r dysgwyr academaidd a galwedigaethol lefel 3 sydd wedi ennill eu cymwysterau Saesneg a mathemateg TGAU yn y gorffennol yn astudio'r dystysgrif her medrau.

Caiff profiadau galwedigaethol dysgwyr eu hymestyn trwy raglen y coleg o weithgareddau ymgysylltu â chyflogwyr, fel siaradwyr gwadd o ddiwydiannau cenedlaethol a chystadlaethau medrau cenedlaethol a byd. Yn y celfyddydau perfformiadol, ceir cysylltiadau cryf â Theatr Genedlaethol Cymru, a gall dysgwyr weithio gydag artistiaid proffesiynol i ddatblygu eu medrau perfformio a chynhyrchu. Mae rheolwyr y cwricwlwm wedi defnyddio eu cysylltiadau hefyd i addasu darpariaethau i ddiwallu anghenion cyflogwyr, fel cyflwyno roboteg mewn cyrsiau peirianneg estynedig.

Er nad yw profiad gwaith ar gael ar draws yr holl gyrsiau, mae'r coleg wedi datblygu partneriaethau hynod effeithiol gyda bwrdd iechyd lleol sy'n galluogi dysgwyr iechyd

a gofal cymdeithasol lefel 3 i ymgymryd â lleoliadau gwaith mewn ysbytai yn ystod eu blwyddyn gyntaf yn astudio. Mae dysgwyr mewn llwybrau tir ar lefel 2 a 3 yn cwblhau profiad gwaith sy'n rhoi mewnwelediad buddiol i weithio yn y diwydiant iddynt.

Mae'r coleg yn parhau i ddatblygu ac ymestyn ei ddarpariaeth alwedigaethol ddwyieithog yn unol â'i gynllun gweithredu. Mae wedi nodi meysydd blaenoriaeth mewn gofal plant, iechyd a gofal cymdeithasol a gwasanaethau cyhoeddus, ac mae bron pob un o ddysgwyr lefel 2 a lefel 3 yn y meysydd hyn yn cael gwersi Cymraeg dynodedig, sy'n canolbwyntio ar wella eu medrau iaith sy'n fedr cyflogadwyedd buddiol.

Mae'r coleg yn cynnig llwybrau datblygu medrau clir i'w ddysgwyr, ar sail eu cyrhaeddiad blaenorol a'u hasesiad cychwynnol. O ganlyniad i adolygiad ansawdd diweddar, mae'r coleg wedi penderfynu eleni y bydd yn cadw ei ddysgwyr sylfaen a lefel 1 gyda'i gilydd ar gyfer eu dosbarthiadau medrau hanfodol. Fodd bynnag, nid yw llawer o athrawon ar draws y coleg yn cynllunio'n ddigon da i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol dysgwyr o'u mannau cychwyn unigol wrth iddynt symud trwy eu cyrsiau galwedigaethol ac academaidd. Nid yw athrawon medrau ac athrawon galwedigaethol yn gweithio gyda'i gilydd yn ddigon da i gefnogi datblygiad medrau dysgwyr o fewn eu cyrsiau.

Mae'r coleg wedi cyflwyno rôl yr anogwr cynnydd i ganolbwyntio ar ddarparu cymorth bugeiliol i ddysgwyr, gan eu helpu i nodi'r camau nesaf ar gyfer cynnydd a chefnogi eu lles. Mae hyn wedi creu ymagwedd fwy cydlynus a chyson at fonitro a datblygu lles dysgwyr, tra'n galluogi athrawon pwnc i ganolbwyntio ar fedrau academaidd a galwedigaethol dysgwyr. Mae adborth llafar athrawon yn rhoi hyder i'r rhan fwyaf o ddysgwyr, a dyheadau i wneud cynnydd. Mae amrywiadau yn ansawdd yr adborth ysgrifenedig ac anghysondeb wrth anodi camgymeriadau llythrennedd yn golygu nad yw dysgwyr bob amser yn gwybod pa mor dda y maent yn gwneud, a beth mae angen iddynt ei wneud i wella.

Mae'r defnydd o dechnegau holi i wirio dealltwriaeth dysgwyr ac atgyfnerthu dysgu blaenorol yn amrywio ar draws y coleg. Yn yr achosion gorau, mae athrawon yn defnyddio cwestiynau dilynol yn dda i annog dysgwyr i adeiladu ar eu hatebion, ac mae holi cyfeiriedig yn denu cyfraniadau defnyddiol gan ddysgwyr. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o wersi, nid yw dull holi athrawon wedi'i ddatblygu'n ddigonol, ac mae athrawon yn dibynnu'n ormodol ar ddefnyddio cwestiynau nad ydynt yn procio atebion dysgwyr.

Yn yr achosion gorau, mae athrawon yn defnyddio eu gwybodaeth am fedrau, galluoedd a dyheadau dysgwyr i gynllunio gweithgareddau sy'n eu hymestyn a'u herio'n effeithiol i gyflawni eu llawn botensial. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, nid yw athrawon yn nodi'r gweithgareddau addysgu a dysgu gorau yn ofalus i alluogi pob dysgwr i wneud cynnydd a chynhyrchu gwaith o safon uchel. Mae cyflymdra ychydig o wersi yn araf ac nid yw gweithgareddau'n symbylu diddordebau dysgwyr. Yn y sesiynau hyn, mae ymgysylltu â dysgwyr yn gyfyngedig ac mae dysgwyr yn oddefol am gyfnodau amser estynedig. Mewn ychydig o ddosbarthiadau technoleg, nid yw athrawon yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau ymarferol o ansawdd uchel sydd ganddynt ar gael i ennyn ymgysylltiad a chefnogi cynnydd dysgwyr yn llawn.

Mae gosod targedau yn nodwedd gref mewn cyrsiau academaidd ac ychydig o feysydd galwedigaethol, er enghraifft mewn busnes, gwasanaethau cyhoeddus a chwaraeon, lle mae athrawon yn cynorthwyo dysgwyr i wybod eu targedau cynnydd ac asesu a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella. Fodd bynnag, mae hyn yn anghyson ar draws y coleg, ac nid yw llawer o athrawon yn gosod targedau ystyrlon ar gyfer eu dysgwyr i lywio cynllunio ac asesu dysgu. Nid yw athrawon yn defnyddio asesu ffurfiannol yn rheolaidd i farnu cynnydd eu dysgwyr a llywio'r cynllunio yn y dyfodol.

Mae athrawon yn Llysfasi yn symud yn ddi-dor rhwng siarad Cymraeg a Saesneg, ac mewn mathemateg TGAU yn Llysfasi, mae dysgwyr yn elwa ar gyfleoedd addysgu a dysgu cyfrwng Cymraeg.

**Gofal, cymorth ac arweiniad**

Mae Coleg Cambria yn darparu amgylchedd cynhwysol a gofalgar ar gyfer ei ddysgwyr a'i staff. Mae'r coleg wedi llwyddo i ddatblygu ethos gyda ffocws cryf iawn ar les, cymorth a pharch ar y ddwy ochr. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael cymorth yn ystod eu cyfnod yn y coleg.

Cydnabu'r coleg y bu cynnydd sylweddol yn anghenion lles dysgwyr, yn benodol oherwydd effaith pandemig COVID-19. O ganlyniad, bu ffocws strategol ar les dysgwyr, gan ddatblygu cyfleusterau buddiol i gefnogi hyn. Er enghraifft, mae gan bob campws ardaloedd lles dynodedig, ystafelloedd gweddïo a thoiledau niwtral o ran rhywedd. Mae dysgwyr yn gwerthfawrogi'r adnoddau hyn ac yn gwneud defnydd rheolaidd o ardaloedd lles.

Mae'r coleg yn cynnig ystod eang o wasanaethau cymorth i alluogi dysgwyr i oresgyn rhwystrau rhag addysg. Mae pob un o'r dysgwyr yn elwa ar gael brecwast am ddim ac mae'r coleg yn darparu cludiant am ddim lle mae angen. Hefyd, mae'r coleg yn darparu pecynnau gofal, talebau bwyd, gofal plant a chymorth ariannol ar gyfer dysgwyr sydd angen y gwasanaethau hyn. Mae cymorth unigoledig ychwanegol ar gael ar gyfer y dysgwyr hynny sy'n ddigartref neu'n ffoaduriaid.

Mae cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth wraidd gwaith y coleg. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dysgu sut i ddeall a pharchu'r rhai o wahanol gefndiroedd. Mae'r coleg yn cyflwyno ystod o ddigwyddiadau i gefnogi hyn, er enghraifft sesiynau tiwtorial y gaplaniaeth, trafodaethau ar ddigwyddiadau cyfoes a hyfforddiant ymwybyddiaeth drawsryweddol.

Mae ystod helaeth o gymorth lles ar gael yn y coleg. Mae dysgwyr yn elwa ar ystod gynhwysfawr o wasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys anogwyr cynnydd, cynorthwywyr lles, ymgynghorwyr gwasanaethau myfyrwyr, anogwyr gwydnwch a chydlynwyr iechyd meddwl, yn ogystal â gweithdrefnau cynhwysfawr i gyfeirio dysgwyr at gymorth mwy arbenigol. Mae staff yn defnyddio systemau a roddwyd ar waith yn ddiweddar i olrhain a monitro effaith y cymorth hwn. Fodd bynnag, sefydlwyd y systemau hyn yn ddiweddar, ac mae'n rhy gynnar i werthuso eu heffaith yn llawn.

Mae'r coleg yn casglu gwybodaeth werthfawr am les a phrofiad dysgwyr trwy holiaduron, fel yr 'arolwg bywyd'. Fodd bynnag, dim ond yn ddiweddar y sefydlwyd

hyn ac nid yw ar gael mewn fformatau sy'n hygyrch i'r holl ddysgwyr ar hyn o bryd. Yn ddiweddar, mae'r coleg wedi cyflwyno rhaglen diwtorial newydd, gan gynnwys ystod o fodiwlau gorfodol ac opsiynol. Mae hyn yn darparu gwybodaeth bwysig i ddysgwyr am ystod o destunau, gan gynnwys diogelu, Atal (Prevent), cydraddoldeb ac amrywiaeth, a gwydnwch. O ganlyniad i'r gwaith hwn, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dangos dealltwriaeth glir o'r testunau pwysig hyn.

Mae'r coleg wedi cyflwyno cynnig 'Cambria Heini' ar gyfer pob un o'r staff a'r dysgwyr. Mae'r cynllun hwn yn annog cymuned y coleg i aros yn heini a gwneud dewisiadau iach am ffordd o fyw. Er enghraifft, mae'r coleg yn darparu sesiwn gynefino ac aelodaeth yn y gampfa ar gyfer dysgwyr cyrsiau medrau byw yn annibynnol.

Mae'r coleg yn darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i ddysgwyr cyn iddynt wneud cais ac wedyn trwy gydol eu taith ddysgu. Mae tîm o staff, gan gynnwys tiwtoriaid, cynghorwyr gyrfaoedd, anogwyr cynnydd a phartneriaid allanol yn cynnig ystod o wybodaeth fuddiol i ddysgwyr. Mewn ychydig o achosion, mae newidiadau o fewn y tîm staff wedi cael effaith andwyol ar y cymorth hwn. Hefyd, mae dysgwyr yn elwa ar 'newid, dim rhoi'r gorau' ('swap don't drop') ar ddechrau'r flwyddyn academaidd, sy'n rhoi hyblygrwydd i'r rhai sy'n ansicr am eu dewisiadau am gyrsiau. Mae gan y coleg ffocws cryf ar sicrhau bod dysgwyr yn aros mewn addysg.

Mae'r coleg yn defnyddio ac yn datblygu prosesau pontio pwrpasol ar gyfer ei ddysgwyr mwyaf bregus. Mae staff yn darparu ystod o weithgareddau, gan gynnwys digwyddiadau agored hygyrch a diwrnodau pontio. Mae'r prosesau hyn yn unigol i anghenion penodol pob dysgwr. Mae dysgwyr yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd hyn a'r ffordd sensitif o rannu gwybodaeth i wneud y broses bontio mor esmwyth ag y bo modd.

Ar gyfer y dysgwyr hynny sydd ag anghenion mwy cymhleth, fel y rhai sy'n dilyn cyrsiau medrau byw yn annibynnol, mae'r coleg wedi cynyddu ei waith pontio yn ddiweddar trwy ychwanegu cyfnod asesu ar ddechrau'r flwyddyn academaidd. Mae hyn yn rhoi cyfle i staff ddod i adnabod eu dysgwyr a sicrhau eu bod yn dilyn llwybr perthnasol.

Mae'r tîm anghenion dysgu ychwanegol wedi datblygu systemau a phrosesau defnyddiol ar gyfer sicrhau bod anghenion dysgwyr yn cael eu diwallu. Er enghraifft, mae cynllun cymorth unigol gan bob dysgwr ag angen dynodedig, sy'n cynnwys gwybodaeth fuddiol am ei ofynion. Mae gan staff ymagwedd hyblyg at ddiwallu anghenion pob dysgwr, ac maent yn darparu cymorth perthnasol i'r tîm staff ehangach. Hefyd, mae gan y coleg brosesau cynhwysfawr ar waith i gynnig cyfleoedd i ddysgwyr ar gyfer sgrinio anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r tîm anghenion dysgu ychwanegol yn darparu hyfforddiant gwerth chweil ar gyfer staff mewn ystod o fformatau, gan gynnwys wyneb yn wyneb a thrwy bodlediadau. Er enghraifft, darparont hyfforddiant diweddar ar leddfu ymddygiad. Yn ychwanegol, mae'r coleg yn cynnig mynediad at ystod o gyfleoedd hyfforddiant perthnasol allanol i bob aelod o staff i ddiwallu anghenion dysgwyr ag angen dysgu ychwanegol.

Mae’r coleg yn defnyddio gweithio mewn partneriaeth i gynorthwyo dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth dda o’u cymuned leol a’r byd ehangach. Er enghraifft, mae dysgwyr yn codi arian ar gyfer elusennau lleol, yn gwirfoddoli i gynnal cyrsiau ‘dawnsio er budd Parkinson’ ac yn elwa ar weithgareddau’r Urdd fel cerdded ceunentydd.

O ganlyniad i ethos cadarnhaol y coleg, mae gan bron bob un o’r staff ddealltwriaeth gref o brosesau a gweithdrefnau diogelu. Mae dysgwyr yn dangos dealltwriaeth glir o sut i adrodd am bryderon a materion a allai effeithio arnyn nhw, fel eithafiaeth a radicaleiddio. Mae’r coleg wedi buddsoddi yn ei ddarpariaeth ddiogelu. Mae’r coleg yn darparu llinell gymorth 24 awr i ddysgwyr, yn ogystal â swyddogaethau sgwrsio byw, a oedd ar gael yn ystod cyfnodau clo.

Mae gan y coleg bolisïau a gweithdrefnau priodol ar gyfer diogelu. Mae pob un o’r staff yn elwa ar hyfforddiant diogelu rheolaidd ac mae’r coleg yn dilyn gweithdrefnau recriwtio mwy diogel. Mae yna ystod o ffyrdd cwbl hygyrch i staff a dysgwyr allu codi pryderon.

Mae dysgwyr yn y coleg yn gweithio â phartneriaid yn y gymuned ehangach i gadw dysgwyr yn ddiogel. Er enghraifft, ar ôl casglu gwybodaeth am faterion lleol, roedd y coleg yn gallu ymateb gyda ffocws ar addysgu dysgwyr am y risgiau a achosir gan ‘linellau cyffuriau’.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth**

Dechreuodd y prif weithredwr yn ei swydd yng Ngholeg Cambria ym mis Ionawr 2020. Er gwaethaf anawsterau’r pandemig, mae’r prif swyddog gweithredol, ei uwch dîm arweinyddiaeth, llywodraethwyr a staff wedi llwyddo i sefydlu cyfeiriad strategol ar sail gweledigaeth, cenhadaeth a nodau strategol ar y cyd. Mae’r coleg wedi gosod disgwyliadau a dyheadau uchel ar gyfer ei ddysgwyr a’i staff. Mae’r awydd i ddatblygu diwylliant o ddidwylledd a thryloywder ac ethos ‘sy’n canolbwyntio ar bobl’ yn sail i’r nodau hyn. Mae llawer o staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, yn cael eu cynnwys ac yn gadarnhaol am y cyfeiriad strategol, ac maent yn gwerthfawrogi’r ffocws cryf ar les a chymorth.

Mae’r corff llywodraethol yn cynnwys aelodau sydd ag ystod eang o brofiad ac arbenigedd proffesiynol sy’n helpu cefnogi datblygiad y coleg. Mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth fuddiol o’r meysydd cryf a’r rhai sydd angen eu gwella. Mae ganddynt ddealltwriaeth glir o’r weledigaeth, y genhadaeth a’r nodau strategol ac yn darparu cymorth a her i’r prif weithredwr a’r uwch arweinwyr. Mae’r corff llywodraethol llawn yn cyfarfod yn rheolaidd ac mae is-bwyllgorau priodol i graffu ar feysydd allweddol y coleg, gan gynnwys ansawdd, cyllid ac ystadau. Mae pob llywodraethwr yn gysylltiedig ag adran benodol a’i harweinydd ar sail cylchdro, fel eu bod yn datblygu profiad gweithredol o holl feysydd y coleg.

I fodloni ei nodau a’i amcanion strategol, ailstrwythurwyd y coleg yn ddiweddar. Mae wedi cynyddu nifer y rolau arwain ar bob lefel yn sylweddol, gan greu llinellau cyfrifoldeb ac atebolrwydd clir. Mae’r strwythur staffio newydd yn ategu ac yn cefnogi gweledigaeth, cenhadaeth a gwerthoedd y coleg. Fodd bynnag, mae’n rhy gynnar i asesu effaith y strwythur newydd hwn ar brofiad dysgwyr, deilliannau a lles dysgwyr yn llawn.

Mae'r coleg wedi cyflwyno system cyfathrebu mewnol newydd i gysylltu staff o holl safleoedd ac ardaloedd dysgu'r coleg a darparu mynediad haws at ddogfennau allweddol a diweddariadau pwysig. Mae'r offeryn cyfathrebu hwn ar gael trwy ddyfeisiau digidol amrywiol, ac mae'n sianelu gwybodaeth trwy un pwynt canolog. Mae'n galluogi pob aelod o staff i ddarllen y blog rheolaidd gan y prif swyddog gweithredol a rhoi adborth ar faterion cyfoes, datblygiadau, trafodaethau a thestunau allweddol.

Mae'r coleg yn gwasanaethu anghenion ei gymuned yn dda ac mae ganddo bartneriaethau ag awdurdodau lleol, ysgolion, colegau, byrddau gwasanaethau cyhoeddus, y bartneriaeth sgiliau rhanbarthol a chyflogwyr. Mae gweithio mewn partneriaeth yn gryf, ac mae arweinwyr y coleg yn aelodau o fyrddau strategol yn yr ardal i sicrhau bod y coleg yn diwallu anghenion cyflogwyr a'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu. Mae gan y coleg rôl ganolog mewn ffurfio blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, ac mae uwch arweinwyr yn aml yn cadeirio byrddau partneriaeth. Mae gan y coleg bartneriaeth gynhyrchiol gydag ysgolion a cholegau ledled gogledd Cymru. Mae'n rhan o Bartneriaeth Drosglwyddiadau Gogledd Cymru, a sefydlwyd i sicrhau bod pob dysgwr yn y sector ôl-16 yn cael addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.

Mae proses hunanasesu barhaus drylwyr ar waith. Caiff ei hategu gan adolygiadau sy'n cael eu cynnal deirgwaith yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae proses hunanasesu'r coleg yn cwmpasu pob ardal o'r coleg, gan gynnwys ardaloedd swyddogaethol, busnes a chymorth. Mae'r broses hon wedi helpu'r coleg i ennill dealltwriaeth gadarn o'i gryfderau a'i feysydd i'w gwella. Trwy ei hunanasesu, mae'r coleg wedi nodi ei flaenoriaethau gwella ansawdd allweddol sy'n llywio'i gynllun gwella parhaus.

Mae'r coleg wedi cyflwyno strategaethau ychwanegol i wella addysgu, deilliannau dysgwyr a phrofiad dysgwyr. Er enghraifft, mae'r adolygiad ansawdd manwl a gyflwynwyd yn ddiweddar yn galluogi timau adrannol i drafod perfformiad, nodi meysydd i'w gwella a gweithredu a chyflymu camau.

Ar hyn o bryd, mae'n rhy gynnar i fesur effaith yr holl brosesau a gweithdrefnau a gyflwynwyd yn ddiweddar. Mewn ychydig o achosion, mae'r offer yn rhy gyfyngedig i fesur perfformiad a chynnydd yn gywir gan nad yw targedau heriol wedi cael eu gosod yn ddigon clir neu'u nodi ar ddechrau'r broses.

Mae strategaeth Gymraeg fuddiol ar waith a chynllun gweithredu i gynyddu darpariaeth Gymraeg a dwyieithog. Mae strategaeth y Gymraeg yn cynnwys amcanion a thargedau clir a bu cynnydd priodol yn erbyn camau gweithredu.

Mae'r coleg wedi gweithredu strategaeth datblygiad proffesiynol gynhwysfawr sy'n cynnwys yr holl arweinwyr, athrawon, staff cymorth a staff gweinyddol. Mae gan y strategaeth nodau ac amcanion clir, sy'n canolbwyntio'n dda ar ddeilliannau a lles dysgwyr. Mae ychydig o staff wedi cwblhau'r rhaglen arweinwyr ysbrydoledig ac wedi symud ymlaen i swyddi uwch o fewn y coleg.

Mae'r coleg wedi symud i system arfarnu staff bob chwarter o'r enw 'sgyrsiau cysylltiedig'. Mae'r sgyrsiau rheolaidd hyn yn canolbwyntio ar anghenion staff unigol a'u hanghenion dysgu proffesiynol. Mae gwerthusiadau cynnar yn awgrymu bod y

dull hwn yn cynhyrchu deialog fwy buddiol rhwng rheolwyr llinell a staff. Fodd bynnag, mae’n rhy gynnar i nodi effaith lawn y broses hon ar addysgu, dysgu a lles.

Mae llawer o staff yn ymgymryd ag amrywiaeth o raglenni datblygiad proffesiynol i ddiweddaru eu medrau a’u gwybodaeth bwnc. Mae staff yn ymgymryd â hyfforddiant gorfodol rheolaidd a diweddariadau ar strategaethau allweddol, fel diogelu a medrau digidol, gyda ffocws allweddol ar fod yn ‘goleg sy’n ystyriol o drawma’.

Mae’r coleg yn darparu lefelau uchel o gymorth personol, ariannol ac academaidd i staff a dysgwyr. Mae’r coleg wedi rhoi cyllid ychwanegol yn ei le i gynorthwyo staff a dysgwyr a allai gael anawsterau yn yr hinsawdd economaidd bresennol. Hefyd, mae wedi cyflwyno rhaglen sy’n asesu anghenion dysgu staff. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar staff o ran nodi eu hanghenion dysgu penodol eu hunain a derbyn cymorth priodol. Gall pob un o’r staff fanteisio ar raglen cymorth rhithwir i ofyn am gyngor, arweiniad a chymorth cyfrinachol.

Mae’r coleg mewn sefyllfa ariannol gref ac mae ganddo gynlluniau ariannol tra ystyriol ar waith ar gyfer buddsoddi ymhellach mewn adnoddau a phrofiad dysgwyr. Mae’n monitro’r gyllideb yn ddiwyd i ddiwallu’r anghenion strategol ac mae ganddo gynlluniau wrth gefn ar waith i fynd i’r afael ag unrhyw newidiadau pellach yn yr hinsawdd economaidd, er enghraifft o ran costau ynni cynyddol.

Mae strategaeth ystadau gynhwysfawr ac uchelgeisiol ar waith. Mae ansawdd y rhan fwyaf o’r adeiladau yn dda iawn. Mae’r coleg wedi buddsoddi mewn datblygiadau ac adnewyddiadau cyfalaf i greu cyfleusterau o ansawdd uchel iawn ar gyfer meysydd galwedigaethol ac academaidd, fel peirianneg, adeiladu a chwaraeon.

Mae’r coleg wedi buddsoddi’n dda mewn adnoddau a thechnoleg ddigidol safon diwydiant sy’n cefnogi addysgu a dysgu yn effeithiol ac yn paratoi dysgwyr ar gyfer byd gwaith. Mae creu hybiau lles, parthau cynhwysiant ac ardaloedd derbynfa yn ddiweddar wedi gwella’r adeiladau ymhellach, gan greu gofodau ymlacio i gefnogi lles dysgwyr a staff.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i ddysgwyr, ac yn ystyried barn athrawon, staff cymorth a'r corff llywodraethol, lle bo'n briodol, trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cyfarfod â'r pennaeth / prif weithredwr, llywodraethwyr, uwch reolwyr a rheolwyr canol ac athrawon unigol, hyfforddwyr a staff cymorth i werthuso effaith gwaith y darparwr
- yn cyfarfod â dysgwyr i drafod eu gwaith, gwrando arnynt a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu darparwr
- yn ymweld â sampl eang o sesiynau, gan gynnwys gweithgareddau ystafell ddosbarth a gweithdy ar draws y ddarpariaeth, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â dysgwyr y tu allan i sesiynau
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r darparwr
- yn ystyried cynllun gwella ansawdd y darparwr ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r darparwr wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r darparwr, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd dysgwyr, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les dysgwyr, gan gynnwys diogelu dysgwyr, a chofnodion hyfforddiant a dysgu proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y bartneriaeth ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/01/2023